Erthygl 12 – Swyddogion

12.01 Strwythur rheoli

(a**)** **Cyffredinol.** Gall y Cyngor llawn gyflogi pa staff bynnag (y cyfeirir atynt fel swyddogion) yr ystyria sy'n angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau.

(b) **Prif Swyddogion.** Bydd y Cyngor llawn yn cyflogi pobl ar gyfer y swyddi canlynol, a byddant yn brif swyddogion dynodedig:

Swydd	Swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb
Prif Weithredwr (a Phennaeth y Gwasanaeth Taledig) Cyflawnir y swyddogaethau a'r meysydd cyfrifoldeb a nodir gyferbyn gan y Prif Weithredwr neu swyddog a enwebir ganddo	Rheolaeth gorfforaethol gyffredinol a chyfrifoldeb gweithredu (gan gynnwys cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r holl staff); Darparu cyngor proffesiynol a diduedd i bawb sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau: Y Bwrdd Gweithredol, pwyllgorau trosolwg a chraffu, y cyngor llawn a phwyllgorau eraill); Ynghyd â'r swyddog monitro, cyfrifoldeb am system o gadw cofnodion ynglyn â holl benderfyniadau'r Awdurdod (gweithredol neu fel arall); Cynrychioli'r awdurdod ar bartneriaethau a chyrff allanol (fel sy'n ofynnol yn ôl statud neu gan y cyngor); a Gwasanaeth i'r Cyngor cyfan, ar sail niwtraliaeth wleidyddol Cymorth cyfreithiol a llywodraethol, canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid, gwasanaethau cymorth canolog a gweinyddol.
Cyfarwyddwr Adnoddau	Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth, Archwilio a Rheoli Risg, Eiddo Corfforaethol
Cyfarwyddwr Adfywio	Datblygu Economaidd, Polisi Ewropeaidd ac Allanol; Grantiau; Gwasanaethau Cynllunio; Cydlynu Polisi ac Ymchwil
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai	Gwasanaethau Oedolion; Gwasanaethau Plant a Theuluoedd; Gwasanaethau Tai; Gwasanaethau Cynnal; Polisi a Pherfformiad; Diogelu'r Cyhoedd.
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes a Hamdden	Cynnal Ysgolion; Safonau Addysg a Dysgu Gydol Oes; Polisi a Pherfformiad; Hamdden ac Adloniant; Rheoli Cyfleusterau; Gwasanaethau Cynnal
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol	Gwasanaethau Adeiladu; Ymgynghoriaeth; Polisi a Pherfformiad; Y Gwasanaethau Stryd; Trafnidiaeth;

	Ymgynghorydd Cefnffyrdd.

(c) Pennaeth y gwasanaeth taledig, y swyddog monitro a'r prif swyddog ariannol. Bydd y Cyngor yn dynodi'r swyddi canlynol fel y nodir. (Penderfynir ar ddynodi Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) adeg penodi'r Cyfarwyddwr Adnoddau)

Swydd	**Dynodiad**
Prif Weithredwr	Pennaeth y Gwasanaeth Taledig
Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith	Swyddog Monitro
Cyfarwyddwr Adnoddau	Prif Swyddog Cyllid

Bydd i'r swyddi hyn y swyddogaethau a ddisgrifir yn Erthygl 12.02 – 12.04 isod.

(d) **Strwythur**. Bydd pennaeth y gwasanaeth taledig yn penderfynu ar ddisgrifiad o strwythur adrannol cyffredinol y Cyngor, ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r disgrifiad hwnnw, gan ddangos y strwythur rheoli a sut y defnyddir swyddogion. Cyflwynir hyn fel Rhan 7 o'r Cyfansoddiad hwn.

12.02 Swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaeth Taledig

(a) Cyflawni swyddogaethau gan y Cyngor. Bydd pennaeth y gwasanaeth taledig yn adrodd i'r Cyngor llawn ynglyn â'r dull o gydlynu swyddogaethau'r Cyngor, nifer a graddfa'r swyddogion sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni Swyddogaethau, a threfniadaeth swyddogion.

(b) Cyfyngiadau ar swyddogaethau. Ni all pennaeth y gwasanaeth taledig fod yn swyddog monitro ond gall ddal swydd y prif swyddog cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

12.03 Swyddogaethau'r Swyddog Monitro

(a) **Cynnal y Cyfansoddiad.** Bydd y swyddog monitro yn cadw fersiwn wedi ei ddiweddaru o'r Cyfansoddiad ac yn sicrhau ei fod ar gael yn eang i ymgynghori yn ei gylch gan aelodau, staff a'r cyhoedd.

(b) **Sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn gyfreithlon ac yn deg**. Ar ôl ymgynghori â phennaeth y gwasanaeth taledig a'r prif swyddog cyllid, bydd y swyddog monitro yn adrodd i'r Cyngor llawn neu i'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â swyddogaeth weithredol os yw ef neu hi o'r farn y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad yn arwain at sefyllfa anghyfreithlon, neu os oes unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi arwain at gamweinyddu. Effaith adroddiad o'r fath fydd atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes bo'r adroddiad wedi cael ei ystyried.

(c) **Cefnogi'r Pwyllgor Safonau.** Bydd y swyddog monitro yn cyfrannu at hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad drwy ddarparu cymorth i'r Pwyllgor Safonau.

(d) **Derbyn adroddiadau.** Bydd y swyddog monitro yn derbyn ac yn gweithredu ar adroddiadau a wnaed gan yr Ombwdsmon a phenderfyniadau'r tribiwnlysoedd achos.

(e) **Cynnal ymchwiliadau**. Bydd y swyddog monitro yn cynnal ymchwiliadau i faterion a gyfeirir gan yr Ombwdsmon, ac yn gwneud adroddiadau neu argymhellion mewn perthynas â hwy i'r Pwyllgor Safonau.

(f) **Swyddog priodol ar gyfer mynediad at wybodaeth.** Bydd y swyddog monitro yn sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol, ynghyd â'r rhesymau am y penderfyniadau hynny, ac adroddiadau gan swyddogion perthnasol a phapurau cefndir, ar gael yn gyhoeddus mor fuan â phosibl.

(g) **Cynghori ynglyn ag a yw penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol** - o fewn y gyllideb a'r fframwaith polisi. Bydd y swyddog monitro yn penderfynu a yw penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi.

(h) **Rhoi cyngor.** Bydd y swyddog monitro yn rhoi cyngor ynghylch cwmpas y pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddiaeth, uniondeb a materion sy'n ymwneud â'r gyllideb a'r fframwaith polisi i'r cynghorwyr i gyd.

(i) **Cyfyngiadau ar swyddi.** Ni all y swyddog monitro fod yn brif swyddog cyllid nac yn bennaeth y gwasanaeth taledig.

12.04 Swyddogaethau'r Prif Swyddog Cyllid

(a) **Sicrhau cyfreithlonedd a doethineb ariannol y penderfyniadau a wneir**. Ar ôl ymgynghori â phennaeth y gwasanaeth taledig a'r swyddog monitro, bydd y prif swyddog cyllid yn adrodd i'r Cyngor llawn neu i'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â swyddogaeth y Bwrdd Gweithredol ac archwilydd allanol y Cyngor os yw ef neu hi o'r farn y bydd unrhyw gynnig, penderfyniad neu gamau gweithredu yn golygu gwariant anghyfreithlon, neu ei fod yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r Cyngor ar fin cofnodi eitem o'r cyfrifon yn anghyfreithlon.

(b) **Gweinyddu materion ariannol**. Bydd gan y prif swyddog cyllid gyfrifoldeb am weinyddu materion ariannol y Cyngor.

(c) **Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol**. Bydd y prif swyddog cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn arbennig drwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.

Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol. Bydd y prif swyddog cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn arbennig drwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.

Rhoi gwybodaeth ariannol. Bydd y prif swyddog cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, aelodau'r cyhoedd a'r gymuned.

12.05 Dyletswydd i ddarparu adnoddau digonol i'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid

Bydd y Cyngor yn rhoi i'r swyddog monitro a'r prif swyddog cyllid pa swyddogion, lle ac adnoddau bynnag eraill sydd yn eu barn hwy yn ddigonol i ganiatáu i'w dyletswyddau gael eu cyflawni.

12.06 Ymddygiad

Bydd y swyddogion yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Swyddogion a'r Protocol ynghylch Cysylltiadau rhwng Swyddogion/Aelodau fel y nodir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

12.07 Cyflogaeth

Bydd recriwtio, dewis a diswyddo swyddogion yn cydymffurfio â'r Rheolau Cyflogi Swyddogion a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.